OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 990 (Cy.144)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) (Diwygio) 2011

Gwnaed - - - -	*29 Mawrth 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*30 Mawrth 2011*
Yn dod i rym - -	*23 Mehefin 2011*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 18(4), 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a pharagraff 4 o Atodlen 3 iddi(**1**).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) (Diwygio) 2011.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 23 Mehefin 2011.

Diwygio Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009(**2**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(2) (dehongli), hepgorer y diffiniad o "undeb llafur".

(3) Yn rheoliad 5(1) (cyfarwyddwyr anweithredol), hepgorer is-baragraff (ch).

(4) Yn rheoliad 10 (terfynu deiliadaeth swydd cadeirydd a chyfarwyddwyr anweithredol), yn lle rheoliad 10(8), rhodder—

"Os bydd y cyfarwyddwr anweithredol y cyfeirir ato yn is-baragraff (c) o reoliad 5(1) yn peidio â bod yn un o aelodau neu o gyflogeion corff sector gwirfoddol yng Nghymru, bydd Gweinidogion Cymru'n terfynu ei benodiad yn gyfarwyddwr anweithredol.".

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. Rhif 2009/1385 (Cy.141).